



## SWYDD DDISGRIFIAD

<b>TEITL Y SWYDD:</b>	<b>Prif Weithredwr</b>
<b>YN ATEBOL I:</b>	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
<b>YN GYFRIFOL AM:</b>	Tîm Rheolaeth UMAber a holl staff UMAber
<b>CYFLOG:</b>	Graddfa Prif Weithredwr UMAber
<b>ORIAU:</b>	Llawn amser, oriau blynyddol, i'w gweithio'n hyblyg wedi trafodaeth â'r rheolwr llinell.
<b>PERTHYNAS Â:</b>	Myfyrwyr, swyddogion myfyrwyr, uwch reolwyr y brifysgol, aelodau o'r gymuned leol, Undebau Myfyrwyr eraill, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, UCM Cymru.

**DYDDIAD A YSGRIFENNWYD:** 20 Medi 2016

### DIBEN Y RÔL

Rheolaeth strategol a chyffredinol o UMAber a chyfrifoldeb corfforaethol dros weithredu diben, gweledigaeth, gwerthoedd a chynllun strategol yr Undeb.

Gweithredu fel yr uwch aelod staff i arwain gweithredoedd y mudiad a'i adnoddau i gwrdd â gofynion myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, nawr ac yn y dyfodol, gan ddilyn y cyfeiriad a osodir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i gyflawni hyn a gweithio gyda'r Brifysgol a rhanddeiliaid eraill.

Datblygu diwylliant sy'n galluogi ein holl bobl i ffynnu, a bod adborth myfyrwyr yn cael ei gipio a'i ddefnyddio i ddatblygu gwasanaethau, prosiectau a mentrau er budd myfyrwyr, yn unol â blaenoriaethau strategol y mudiad.

Gweithio'n glòs â swyddogion myfyrwyr i sicrhau bod democratiaeth ac ymgysylltiad myfyrwyr yn cydymffurfio â gwasanaethau ac adnoddau'r mudiad. Sicrhau bod hyfforddiant a chymorth yn cael eu cynnig i swyddogion myfyrwyr, i'w darparu hwy â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol, yn ogystal â diogelu sefydlogrwydd ariannol a chydymffurfiaeth gyfreithiol y mudiad.

Gweithredu fel llysgennad a ffynhonnell ar gyfer dilyniant o fewn yr Undeb ac adeiladu perthynas gadarn er mwyn creu cyfleoedd â rhanddeiliaid allweddol, yn arbennig uwch staff y brifysgol, mudiadau lleol a'r gymuned leol.

## **DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

### **1 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Corfforaethol**

- Arwain datblygiad a gweithredu'r weledigaeth a'r cynllun strategol, gan sicrhau bod prosesau llym ac effeithiol mewn lle i gyflawni a monitro ei amcanion.
- Gweithredu fel Ysgrifennydd y Cwmni i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, gan sicrhau bod aelodau'r bwrdd yn cael eu darparu â gwybodaeth amserol a chywir er mwyn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys cyngor sy'n ymwneud â llywodraethiant Undeb y Myfyrwyr, y strategaeth hir-dymor a'u cyfrifoldebau fel cyflogwyr staff.
- Cynghori a hyfforddi'r Swyddogion Sabothol sy'n Ymddiriedolwyr, gan sicrhau eu bod yn meddu ar y medrau angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran llywodraethiant a chynrychiolaeth.
- Darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a gweledol i staff, gan greu tîm wedi'i ffocysu ar fyfyrwyr, sy'n atebol ac yn perfformio'n dda.
- Rheoli gweithgareddau a gweithdrefnau'n effeithiol a monitro perfformiad yn rheolaidd er mwyn cyrraedd targedau ac amcanion.
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys rheoli cyllidebau ac adnoddau ariannol.
- Bod yn gyfrifol am reoli risg parthed gweithrediad y mudiad, yn unol â deddfwriaeth gyfredol a diweddarau'r Polisi Risg yn rheolaidd i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.

### **2 Cynllunio Strategol**

- Ynghyd â rhanddeiliaid allweddol, datblygu a gweithredu cynllun strategol sy'n cwrdd â gweledigaeth a gwerthoedd Undeb y Myfyrwyr, a sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei adolygu, ei ddiweddarau a'i newid yn rheolaidd, yn ôl y galw.
- Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu cynllun gweithredu blynyddol.
- Cynnal perthynas a phartneriaeth gref â'r Brifysgol, mudiadau cymunedol lleol, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, UCM Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill.
- Sicrhau bod prosesau monitro perfformiad mewn lle i sicrhau bod amcanion y cynllun strategol yn cael eu cyflawni.

### **3 Rheolaeth Gyllidol a Threfniannol**

- Cymryd cyfrifoldeb dros gyllid UMAber a datblygu diwylliant o werth am arian a thryloywder.
- Goruchwyllo llunio cyllideb incwm a gwariant, a gwariant cyfalaf, yn flynyddol, gan sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'r defnydd mwyaf effeithlon o asedau UMAber, a chynghori'r Ymddiriedolwyr parthed oblygiadau gwahaniaethau sylweddol mewn cyllidebau.
- Sicrhau bod gweithdrefnau cyllidol effeithiol mewn lle a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r archwiliad ariannol blynyddol.
- Sicrhau bod systemau gwybodaeth reoli mewn lle ynghyd â systemau priodol ar gyfer monitro eu heffeithiolrwydd.

- Sicrhau bod gan Undeb y Myfyrwyr gynllun ariannol sy'n creu'r cyfleoedd gorau ar gyfer sefydlogrwydd a chynladwyedd ariannol, gan gynnwys rhagolygon llif cost sy'n alinio â'r gyllideb incwm a gwariant.
- Ymdrechu tuag at welliannau parhaus mewn effeithlonrwydd o ran cynllunio a darparu gwasanaethau.
- Chwlio am gyfloedd newydd ar gyfer amrywio incwm o ffynonellau cyllido gwirfoddol neu statudol i gynorthwyo prosiectau newydd er budd ein haelodau
- Sicrhau ymchwil a dadansoddiad parhaus ac effeithiol i anghenion myfyrwyr, tueddiadau'r farchnad a materion cyfoes, i ffurfio sail ar gyfer cyfeiriad strategol a thwf y mudiad gyda chyfranogiad yr Ymddiriedolwyr.

#### **4. Yswiriant a Deddfwriaeth**

- Sicrhau cydymffurfiad â phob deddfwriaeth berthnasol; i gynnwys pob deddfwriaeth sy'n perthyn i addysg, elusennau, iechyd a diogelwch, cyflogaeth, cyfleoedd cyfartal a thrywyddedu.
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth o yswiriant yn ddigonol ar gyfer UMAber yn ei gyfanrwydd, a sicrhau bod unrhyw ofynion a wneir gan gwmnïau yswiriant yn cael eu diwallu.

#### **5. Rheoli Pobl**

- Bod yn gyfrifol am gymell a rheoli staff UMAber, gan sicrhau eu bod yn gweithio fel tîm cydlynol ac effeithiol.
- Sicrhau bod systemau rheoli staff priodol mewn lle ar gyfer monitro perfformiad effeithiol, annog atebolrwydd a sefydlu diwylliant o welliant parhaus.
- Arwain ar ddatblygu diwylliant, ar draws UMAber, sy'n gweithredu'r gwerthoedd hyn, ac sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, yn arbennig o ran gwasanaeth i'r aelodaeth.

#### **6. Swyddogion Etholedig Undeb y Myfyrwyr**

- Darparu cyngor i'r swyddogion etholedig parthed gofynion cyfreithiol eu rôl fel Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr UMAber.
- Darparu cyngor a chefnogaeth i'r swyddogion etholedig er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn y fframwaith strategol a osodir gan yr Ymddiriedolwyr.
- Sicrhau'r ddarpariaeth o gyngor eglur ar faterion llywodraethiant UMAber gan gynnwys cyfansoddiad, rheolau sefydlog a pholisïau Undeb y Myfyrwyr.
- Darparu cyngor ar greu a gweithredu strategaeth ar gyfer datblygu UMAber a'i wasanaethau.
- Sicrhau bod y swyddogion etholedig yn rhan o raglen sefydlu, hyfforddi a datblygu effeithiol.
- Sicrhau bod y swyddogion etholedig yn darparu set o dargedau i weithio tuag atynt a mesuriadau y gellir meincnodi eu perfformiad yn eu herbyn a gymeradwyr gan yr Ymddiriedolwyr.

## **7. Rheoli Ansawdd**

- Datblygu, adolygu a gyrru diwylliant o ansawdd uchel, sy'n perfformio'n dda ac sy'n seiliedig ar ganlyniadau, sy'n gallu ymateb i anghenion myfyrwyr.
- Sicrhau ymchwil a dadansoddiad effeithiol i anghenion myfyrwyr, tueddiadau'r farchnad a materion cyfoes, i ffurfio sail ar gyfer cyfeiriad strategol a thwf y mudiad gyda chyfranogiad yr Ymddiriedolwyr.
- Sefydlu systemau a gweithdrefnau effeithiol, gan gynnwys meincnodi allanol, er mwyn creu diwylliant o welliant parhaus.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn chwarae rhan mewn cynllunio a darparu gwasanaethau a bod eu barn yn cael ei hadlewyrchu yng nghynlluniau strategol a gweithredol UMAber.

## **8. Rheoli Perthynas â Rhanddeiliaid**

- Adeiladu a datblygu perthynas weithio effeithiol â rhanddeiliaid allweddol UMAber.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol er mwyn gwireddu cennad, gweledigaeth a gwerthoedd UMAber, gan sicrhau bod yr Undeb yn cynnal perthynas cyfaill beirniadol ar bob lefel.
- Mynd ati i hyrwyddo buddiannau, brand ac enw da UMAber, yn fewnol ac yn allanol.
- Gweithredu fel llysgennad i'r byd y tu allan ar ran y mudiad, gan ddatblygu rhwydweithiau sydd o fudd i fyfyrwyr a datblygiad y mudiad.
- Ffurfio cysylltiadau â mudiadau cenedlaethol, gan gynnwys UCM ac UCM Cymru, gan hyrwyddo buddiannau UMAber a chyfrannu at nerth cyfunol mudiad yr undebau myfyrwyr.

## **9. Dyletswyddau Eraill:**

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all helpu i gyflawni'r tasgau uchod yn effeithiol, a all hefyd hyrwyddo buddiannau UMAber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo a chynnal gwerthoedd a pholisïau UMAber yn gadarnhaol.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel bo'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo gweithgareddau a gwasanaethau adrannau eraill
- Mae ystyriaethau amgylcheddol ac arferion gorau parthed yr amgylchedd yn gyfrifoldeb i holl staff Undeb y Myfyrwyr
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

## **NEWIDIADAU YN Y SWYDD DDISGRIFIAD**

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad â deilydd y swydd.